


ADOLYGIADAU

Cyfres y Grefft

Melinau Gwlân gan J. Geraint Jenkins, Carreg Gwalch, 96tud., Pris £5.50

Dyma gyfres newydd sbon sy'n crynhoi hanes y diwydiant gwlan yng Nghymru. Adroddir hanes datblygiad y diwydiant o'r Oesoedd Canol hyd at ei ddirwyiad. Am ganrifoedd lawer, y diwydiant gwlan oedd un o'r rhai pwysicaf a mwyaf eang o'r diwydiannau gwledig.



Ychwanegiad bach oedd y diwydiant Gwlân at y diwydiant ffermio yng nghanolbarth a gogledd Cymru ar y cychwyn. Ond fe ddatblygodd yn ddiwydiant annibynnol maes o law. Mae olion y pandy a melin ban yn dyst o'r diwydiant mewn sawl pentref yn awgrymu eu lleoli yno ar ryw adeg.

Pan adawodd Robert Owen ei dref enedigol, Llanfair-yng-Nghedewain neu Y Drenewydd, yn gynnar yn yr 1789au, nid oedd yn ddim mwy na thref farchnad fechan. Ond erbyn troad y ganrif, roedd ffatrioedd cribo, nyddu a phannu yn ogystal â siopau gwehyddu i'w canfod yn y Drenewydd. Yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gelwid y dref yn Leeds Cymru gan drafeilwyr yr oes honno, yn wir 'tref newydd' oedd hon, wedi'i hadeiladu o gwmpas calon bwrdeistref hynafol Llanfair-yng-Nghedewain.

Cynhyrchid gwlanen a brethyn ar gyfer ei allforio i bedwar ban byd. Yn ystod oes aur y diwydiant bu berthyn Cymru yn dilladu caethweision Gogledd America yn ogystal â lloedd arfor Dug Wellington; gwlan Cymreig a wisgid gan lowyr a gweithwyr dur Cymru, a daeth y rhai oedd yn ei chynhyrchu yn bobol ariannog iawn.

Er y llewyrch, roedd amodau yn y Drenewydd mor wael fel mai'r dref honno oedd man cychwyn yr anfodlonrwydd mawr a Siartiaeth. Cynhaliwyd y cyfarfod Siartiaeth cyntaf yng Nghymru yn y Drenewydd ar 3 Hydref 1838.

Cefais y gyfrol yn un hynod ddiddorol ac mae'r lluniau lliw yn werth eu gweld. Ar ddiwedd y llyfr, disgrifir y melinau sy'n dal yn bodoli heddiw. Mae'n werth ei darllen. Prynwch hi at y Nadolig.

Cyfres y Grefft

Dre-fach Felindre a'r Diwydiant Gwlân gan J. Geraint Jenkins, Carreg Gwalch, 88tud., Pris £5.50

Dyma'r ail gyfrol yng Nghyffres y Grefft.

Yn ôl yr awdur, mae pentref Dre-fach Felindre yn wahanol i bentrefi eraill Gorllewin Cymru am iddi fod, hyd yn gymharol ddiweddar, yn brif ganolfan y diwydiant gwlan yng Nghymru. Yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda ffyniant y diwydiant gwlan yn yr ardal, dechreuodd cymeriad ardal Dyffryn Teifi newid. Y rheswm am hyn oedd i'r diwydiant gwehyddu a gwau yn y cartref a oedd yn bodoli am ganrifoedd lawr, gael ei drawsnewid i fod yn rhan o fusnes mewn ffatri. Cynyddodd y boblogaeth yn gyflym ac ymfudodd nifer fawr o deuluoedd cefn gwlad i bentrefi'r dyffrynnoedd. A'r hanes ymlaen i son am y twf anhygoel, y diwydiant cartref, enwau'r gweithdai a cheir disgrifiadau o'r peiriannau a'r costau ynghlwm â'r deunyddiau.

Am gyfnod byr, cafodd Dre-fach Felindre fwynhau oes aur fel yr ardal bwysicaf drwy Gymru gyfan o safbwynt cynhyrchu nwyddau gwlan. Byr fu parhad y llewyrch hwn - mewn gwirionedd ni ddechreuodd hyd y 1880au a daeth i ben yn ddisymwth gyda diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn ystod y cyfnod hwnnw o yehydig dros chwarter canrif, roedd galw cyson am gynnyrch y gwyddiau a chasglai perchnogion y ffatrioedd ffortiwn iddynt eu hunain gan eu bod yn gallu sicrhau digonedd o lafur rhad. Ar lafar gwlad, gelwir Dre-fach Felindre a'r pentrefi bychain Cwmpengraig a Chwmhiraeth ar eu cyfrion yn 'Huddersfield Cymru'.

Oherwydd pwysigrwydd y ardal fel canolfan wehyddu, sefydlwyd Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn un o'r melinau mwyaf yno, Y Cambrian. Agorwyd yr Amgueddfa am y tro cyntaf yn 1976, yna fe'i hadnewyddwyd a'i hailagor ar ei newydd wedd yn 2004.

Mwynheais yr holl gefndir a'r hanes am ardal nad wyf yn gyfarwydd iawn â hi. Mae'r gyfrol wedi rhoi awydd imi droi trwyn y car am y fangre hon. Cyfrol arall hynod ddiddorol a dadlennol sy'n sicr yn werth ei phrynu.

Newyddion Ffoltia Mawr gan Wil Sam, Gwasg Carreg Gwalch, 181tud., Pris £6.50

Newyddion lleol am bentref dychmygol yng nghefn gwlad Cymru a geir yn y gyfrol. Roedd colofn 'Ffoltiau Mawr' yn Y Cymro yn 1971-2. Bryd hynny doedd dim un papur bro yng Nghymru ond roedd y math o newyddion ddeuai i fritho tudalennau'r rheiny eisoes yn fyw ac yn iach yn y cymdeithasau Cymreig.

Dyma gyfrol allwn i ddim ei rhoi i lawr ar ôl cychwyn ei darllen. Fe'i cefais yn wirioneddol ddigrif. Roeddwn i'n cael tipyn bach o drafferth weithiau â'r iaith lafar er hynny, darllenais yr ardoddiadau rhwng pyliau go arw o chwerthin. Yr hyn sy'n ei gwneud yn ddoniol tu hwnt yw ein bod i gyd wedi darllen ardoddiadau tebyg yn ein papurau bro dros y blynyddoedd. Dyma chi un yn cyfeirio at un o blant yr ardal sy wedi llwyddo yn y 'Lefal O'.

Congraj i Neli, merch hynaf Gwarcha Bach ar basio Domestig Syiys a Gwaith Gwnio. Un garw ydy Neli, mae hi'n medru rhoi eda yn nodwydd ers pan oedd hi ddim o beth.

Llongddryllion lawer i Gaynor Griffiths hithau, wedi gneud yn dda iawn, wedi cael ei Hinglish Langwej am y trydydd tro yn olynol

A beth am hwn ar ddangos ffilm yn y Band of Hope:

